

Plas Tan Y Bwlch

Ar Ddydd Iau ar y 8fed o Ionawr 2015 aeth dosbarth Yr Eifl sef Blwyddyn 5 a 6 ar eu ymweliad blynyddol a Phlas Tan Y Bwlch, Maentwrog.

Cyrhaeddom y Plas oddeutu deg o'r gloch y bore a chrofrestru yn ystafelloedd y Stablau. Ein tiwtor am y dyddiau nesaf oedd Ann Thomas.

Sesiwn gyntaf y dydd oedd cael sgwrs gyda Mr a Mrs Roberts am eu ymweliad â Phatagonia. Dangoswyd nifer o luniau diddorol o'r Wladfa a hefyd offer o'r wlad er enghraifft ffedogau, lluniau, gorchydd tebot a llawer mwy.

Roedd dwy o enethod o Batagonia o'r enw Judith a Ariela yno. Roeddent yn dysgu siarad Cymraeg. Gofynnodd Mrs Roberts os fuasai y genod yn siarad ychydig o Sbaeneg ond doeddem ni y disgyblion ddim yn deall y sgwrs!

Cafodd bawb ginio blasus gan y cogyddion caredig oedd yn Plas Tan Y Bwlch cyn mynd ar ein taith gyntaf .

Aethom i Gastell Harlech a dyma ychydig o wybodaeth amdano ac am Owain Glyndŵr.

Mae Castell Harlech yn adeilad cryf iawn uwchben craig fawr ond gyda grisiau yn arwain at lan y môr. Golygir hyn ei fod yn

bosibl anfon cychod dros y môr i'r Castell yn ystod gwarchae. Ar ol gwarchae hir cwmpodd Castell Harlech i Owain Glyndŵr yn 1404 ond roedd y Castell dan reolaeth y Saeson ar ol 5 mlynedd. Mi wnes i fwynhau hanes Owain Glyndwr ac roeddwn wrth fy modd yn cael gweld y castell ac hefyd y golygfeydd ardderchog o'm cwmpas.

Ar ôl dychwelyd i Blas Tan y Blwch cafwyd swper gwych cyn i ni fynd i'r sesiwn olaf o'r diwrnod yn y Stablau.

Croesawyd Geraint a Margaret Williams atom gan Ann Thomas ond roedd Geriant yn cael ei alw yn Benji gan bawb yn yr ardal.

Casglu hen offer cyfnod Owain Glyndwr oeddynt ond yn anffodus nid oedd yn bosibl dod a'r aderyn ysglyfaeuthus y tro yma.

Dangosodd Benji wahanol gleddyfau oedd ganddynt a hefyd cafodd Guto Morgan gyfle i geisio codi'r cleddyf a'i ddal mewn gwahanol ffyrdd. Fe lwyddodd i ddal y gleddyf mewn gwahanol fyrdd, chwarae teg iddo !!

Roedd gwisg rhyfel cyfnod Owain Glyndwr yn drwm ofnadwy oherwydd roeddynt yn gwisgo côt ledr ac wedyn roedd rhaid ei orchuddio gyda siwt wedi ei wau o fetal.

Gwisgwyd helmed gadarn ar eu pen a gorchudd metal ar eu gwyneb er mwyn rhwystro'r arfau anafu eu gwyneb.

Cafodd Cathrine drïo y wisg fetal. Roedd hi'n drwm ofnadwy i feddwl fod y milwyr yn rhyfela gyda'r holl bwysau.

Margaret oedd yn gwneud yr holl wisgodd ac roedd Benji yn gwneud yr arfau. Roedd casgliad helaeth o arfau ganddynt megis gwahanol gleddyfau, gwaywffon hela anifeiliad, a bocs pren yn llawn o wahanol saethau.

Diolchwyd iddynt gan Ffion Enlli. Nid oeddwn yn aros dros nos felly ar ol gorffen mi adewais gyda Ella ac Alaw a dychwelyd erbyn 9.00 y bore wedyn.

Cyrhaeddom ar Ddydd Gwener oer a rhewllyd i gyfarfod fy nghyd ddisgyblion er mwyn parhau a'n ymweliad.

I ffwrdd a ni yn y mini bws tuag at Trawsfynydd.

Croesawodd Gerald Williams sef nai y bardd ni i'r Ffermdy Cymreig sef Yr Ysgwrn. Mae'r Ysgwrn yn dyddio o'r 1830au ond yn 1917 y daeth y safle yn enwog.

Aeth Blwyddyn 6 i'r parlwr oer a thywyll gyda Gerald tra oedd blwyddyn 5 mewn ystafell arall gyda Ann Thomas lle y roedd chwe cadair ennillodd y bardd gan gynnwys Y Gadair Ddu. Sôniodd Gerald mai enw barddol oedd Hedd Wyn ac mai ei enw bedydd oedd Elis Humphrey Evans.

Cafodd pawb gyfle i eistedd mewn cadair farddol ond nid y Gadair Ddu enwog oherwydd chafodd Hedd Wyn ddim eistedd ynnddi.

Hoff beth Hedd Wyn oedd ysgrifennu barddoniaeth. Roedd tad Elis yn ysgrifennu barddoniaeth hefyd. Dywedodd Gerald fod Hedd Wyn yn gwrando ar a gwylio ei dad yn barddoni.

Ni wyddai Hedd Wyn ei fod wedi ennill Y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Birkinhead oherwydd roedd ef fel nifer o fechgyn ifanc yn brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn anffodus cafodd Elis Humphrey ei ladd yn Rhyfel Cefn Pilkem ar 31ain o Orffennaf 1917, chwe wythnos cyn yr eisteddfod. Cyhoeddwyd o lwyfan yr eisteddfod fod Hedd Wyn wedi cael ei ladd. Hyd heddiw yr ydym yn cydnabod y Gadair fel y Gadair Ddu i gynyrchioli yr holl Gymry ifanc a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ffarweliodd pawb a Gerald ac i ffwrdd a ni o Drawsfynydd yn ôl i'r Plas.

Cyrhaeddom yn ôl yn y Plas i ystafelloedd Stablau. Yn anffodus roedd y tywydd gwlyb ac oer yn golygu nad oedd hi'n addas i ni allu ymweld ag Eglwys Maentwrog. Felly i'n diddanu ni am weddill y prynhawn cafwyd cwis bach cyffrous oddi amgylch y Plas ac yna roedd hi'n amser ffarwelio a dychwelyd i Ysgol Bro Plenydd. **Ceri Daniel Ferris, Bl 6**

